# Crynodeb

O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r system budd-daliadau yng Nghymru wedi gwynebu heriau digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd un o bob pump swydd yng Nghymru yn y sectorau lle y bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o fusnesau gau neu leihau masnachu, a cafodd 474,600 o swyddi eu rhoi ar ffyrlo rhywbryd yn ystod cyfnod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Erbyn Ebrill 2021, roedd y nifer o bobl sy'n hawlio budd-daliadau bron i ddwywaith y lefelau ar ddechrau 2020. Roedd graddfa'r heriau hyn yn cynrychioli cyfle pwysig i asesu pa mor effeithiol y mae'r system budd-daliadau yn cefnogi hawlwyr yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae nawdd cymdeithasol yn gymhwysedd a gedwir yn ôl. Serch hynny, roeddem yn dymuno archwilio a oedd materion sy'n effeithio'n anghyfartal ar Gymru o'i gymharu â mannau eraill yn y DU, ac i ba raddau y mae unrhyw wahaniaethau yn golygu heriau mwy i'r system yng Nghymru. Roeddem yn dymuno asesu nid yn unig pa mor dda y mae hawlwyr yn cael eu cefnogi, ond hefyd pa mor effeithiol yw'r system wrth weithredu. Yn bennaf oll, i'n helpu i ystyried y materion hyn, roeddem yn dymuno clywed gan ystod eang o bobl, gan gynnwys hawlwyr, cynghorwyr cefnogaeth budd-daliadau, academyddion, melinau trafod a llywodraethau Cymru a'r DU.

Yn benodol, mae ein hadroddiad yn edrych ar:

- Yr heriau sy'n wynebu'r system budd-daliadau yng Nghymru
- Gwersi'r pandemig i system nawdd cymdeithasol y DU
- Cysylltiadau rhynglywodraethol

**Yr heriau sy'n wynebu'r system budd-daliadau yng Nghymru**

Mae ein hadroddiad yn cynnwys asesiad manwl o'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol a demograffaidd y mae'r system budd-daliadau yng Nghymru yn gweithredu ynddo ac i ba raddau y mae hyn yn wahanol i weddill y DU.

Mae rhai elfennau yn haeddu clod: wrth i'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi, roedd y cyfradd diweithdra yng Nghymru yn is, ac yn disgyn yn gyflymach, nag yn y DU yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, rhaid cymedroli'r clod yma gyda'r ffaith bod gan Gymru gyfradd uwch o bobl mewn diweithdra tymor hir a llai o bobl yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol neu sectorau ag iddynt gyflogau uwch. Mae gan Gymru'r cyfraddau tlodi uchaf ymysg holl genhedloedd y DU, gyda 31% o blant yn byw mewn tlodi a 71% o'r plant hynny'n byw mewn cartrefi sy'n gweithio. Yn fwy cyffredinol, mae enillion yr awr ar gyfartaledd yn is yng Nghymru nag ar draws y DU.

Ceir ffactorau demograffaidd hefyd sy'n cyflwyno mwy o heriau i Gymru nag i fannau eraill. Mae gan Gymru'r cyfradd uchaf o anabledd ymysg cenhedloedd y DU a phoblogaeth hŷn: mae mwy nag un o bob pump preswylydd yn 65 oed a throsodd, cyfran sydd yn ail i Dde Orllewin Lloegr yn unig. Yn olaf, nodwn bod mwy o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran, yn byw mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu â Lloegr. Mae

hyn yn creu heriau cysylltedd sylweddol, nid yn unig o ran darpariaeth band eang ond hefyd trafnidiaeth gyhoeddus mwy cyfyngedig ar gyfer hawlwyr sy'n gorfod mynychu apwyntiadau neu waith.

Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion hyn yn tanlinellu'r angen i Lywodraeth y DU fod yn ymwybodol o gyd-destun Cymru pan yn penderfynu ar bolisi lles.

**Gwersi'r pandemig i system nawdd cymdeithasol y DU**

Gosododd pandemig Covid-19 bwysau digynsail ar y system nawdd cymdeithasol yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae ein hadroddiad yn edrych ar berfformiad yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r system budd-daliadau wrth ymateb i'r pandemig, ynghyd â'r gwersi sy'n deillio o'r pandemig ar gyfer y system wrth symud ymlaen.

Ar y cyd â gweddill y DU, cafodd y pandemig effaith di-oed a digyffelyb yng Nghymru. Serch hynny, daliodd y system i weithio. Llwyddodd Credyd Cynhwysol i wrthsefyll y pwysau, yn rhannol oherwydd y model digidol ond hefyd o ganlyniad i ymdrechion anferthol staff ac arweinyddiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym yn cymeradwyo eu hymrwymiad i gefnogi cymaint o filoedd o bobl, â llawer ohonynt yn mynd trwy'r system budd-daliadau am y tro cyntaf.

Clywsom hefyd am effaith sylweddol y gefnogaeth uwch dros dro a roddwyd i hawlwyr budd-daliadau gan Lywodraeth y DU yn ystod y pandemig. Disgrifiodd llawer o gyfraniadau yr ychwanegiad o £20 fel "achubiaeth" a thynnwyd sylw at gefnogaeth arall a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, megis y cynnydd yn y Lwfans Tai Lleol. Serch hynny, lleddfwyd y clod gan ofidion ynghylch effaith cael gwared â neu leihau'r gefnogaeth ychwanegol.

Rydym yn cydnabod bod angen i Lywodraeth y DU wneud dewisiadau anodd er mwyn sicrhau bod y system budd-daliadau yn gynaliadwy yn ariannol, ond credwn bod angen cael trafodaeth ar sut i sicrhau bod budd-daliadau yn ddigonol, fforddiadwy a chynaliadwy. Byddem, felly, yn croesawu eglurder gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch y metrigau a ddefnyddir i benderfynu digonlorwydd budd-daliadau ac, yn rhinwedd y cynnydd

disgwyliedig mewn chwyddiant a chostau byw yn gyffredinol, rydym yn argymell y dylai'r ychwanegiad o £20 gael ei adfer a'i ehangu i fudd-daliadau etifeddol.

**Cysylltiadau rhynglywodraethol**

Mae'r system budd-daliadau yn croestorri ystod eang o gyfrifoldebau datganoledig, megis sgiliau, tai ac iechyd. Mae ein hadroddiad, felly, yn ystyried pa mor effeithiol yw'r cydweithio rhwng y ddwy lywodraeth. Mae Gweinidogion o bedair llywodraeth y DU wedi cwrdd ar wahanol adegau yn ystod y pandemig i reoli a lleddfu'r heriau digynsail sydd wedi codi: byddai peidio ag adeiladu ar y sail yma yn gyfle a gollwyd. Byddai Llywodraethau'r DU a Chymru ar eu hennill wrth barhau gyda'r cydweithio cymeradwy a ffurfiwyd yn ystod y pandemig.

Rydym yn croesawu'r cynlluniau a amlinellir yn yr Adolygiad Rhynglywodraethaol i bob Llywodraeth ar draws y DU i gwrdd i drafod lles, ond mae polisi Llywodraeth y DU yn effeithio'n fwy ar Gymru nag ar yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gan nad oes

unrhyw fudd-daliadau wedi'u datganoli. Yn sgil hyn, credwn y dylid sefydlu Bwrdd Cynghori Rhyngweinidogol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru. Byddai bwrdd o'r math yn galluogi i'r ddwy lywodraeth drafod polisïau sydd yn effeithio ar y llall: er enghraifft, gwaith llywodraeth y DU ar sgiliau ym Mhapur Gwyn Codi'r Gwastad a chynllun peilot incwm sylfaenol Llywodraeth Cymru.

Edrychom hefyd ar y cwestiwn a ddylid datganoli unrhyw agwedd o'r system budd-daliadau. Mae ein hadroddiad yn cydnabod y ceir syniadau gwahanol ynghylch y pwnc yma. Serch hynny, rydym yn dod i'r casgliad y ceir gwahaniaeth pwysig rhwng datganoli gweinyddiaeth

rhai budd-daliadau lles a datganoli lles ar raddfa eang. O ganlyniad, rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd Cynghori Rhyngweinidogol ar Nawdd Cymdeithasol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru ymgymryd ag asesiad o rinweddau posib datganoli'r un budd-daliadau i Gymru ag y datganolwyd i'r Alban.